



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru: 2026-2030



“A thrwy gyngor a chytundeb y doethion a ddaeth yno, archwiliwyd yr hen gyfreithiau, gadawyd rhai ohonynt i barhau, diwygiwyd eraill, a dilëwyd eraill yn gyfan gwbl, a gosodwyd rhai eraill o’r newydd.”

Llyfr Iorwerth 1240

Cyflwyniad gan Gwnsler Cyffredinol Cymru

Fel Cwnsler Cyffredinol Cymru, rwy'n ystyried hygyrchedd cyfraith Cymru yn gyfrifoldeb cyfansoddiadol ac yn anghenraid ymarferol. Mae gan Gymru hanes cyfreithiol hir a nodedig, a gysylltir yn aml â'r cyfreithiau a briodolir i Hywel Dda. Mae llawer o'r llawysgrifau o gyfraith Cymru a gedwir yn ein Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth yn fach eu maint, a chredir eu bod wedi'u cynllunio nid ar gyfer silffoedd llyfrgelloedd ond i'w cario gan gyfreithwyr y cyfnod. Mae'r hanes hwnnw yn ein hatgoffa bod y gyfraith yng Nghymru wedi bod yn gysylltiedig ers tro byd â'n hiaith ac ag anghenion ymarferol y bobl y mae'n eu gwasanaethu.

Yn y cyfnod modern, mae ymddangosiad corff neilltuol o gyfraith i Gymru, ynghyd â datblygiad parhaus ein hawdurdodaeth gyfreithiol ein hunain, yn golygu bod rhaid inni ailysgwyddo'r cyfrifoldeb dros stiwardiaeth ein llyfr statud. Mae hon yn dasg y mae fy rhagflaenwyr fel Cwnsler Cyffredinol wedi ymrwymo iddi, ac edrychaf ymlaen at ei chyflawni gydag ymrwymiad cadarn. Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf ei pholisi o wella hygyrchedd cyfraith Cymru, gan gynnwys drwy gydgrynhoi a chodeiddio. Roedd hwn yn ymrwymiad hirdymor a gafodd ei wreiddio'n ddiweddarach yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, sydd bellach yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer y gwaith parhaus sydd ei angen i sicrhau y gellir dod o hyd i'r gyfraith a wneir ar gyfer Cymru, ei deall a'i defnyddio'n hyderus gan y rhai y mae'n gymwys iddynt.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol lunio rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Rhaid i'r rhaglen gynnwys gweithgareddau sydd â'r nod o gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith, cynnal cyfraith godeiddiedig, hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru, hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, a datrys amwyseddau a chywiro gwallau.

Mae'r ail raglen hon yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod y rhaglen gyntaf, ac mae'n canolbwyntio nid yn unig ar y gwaith craidd o foderneiddio'r gyfraith ei hun, ond hefyd ar sut y gallwn ddechrau gwneud gwell defnydd o dechnoleg i hwyluso'r gwaith hwnnw ac i gyflwyno'r gyfraith mewn ffordd sy'n hawdd ei defnyddio.

Felly, mae'r rhaglen yn adlewyrchu uchelgais sy'n ymestyn y tu hwnt i welliannau technegol i ddeddfwriaeth. Mae'n rhan o ymrwymiad parhaus i sicrhau bod cyfraith Cymru yn cael ei chydabod yn ei rhinwedd ei hun fel corff cydlynol, dwyieithog a hygyrch o gyfraith, sy'n gallu diwallu anghenion pobl Cymru heddiw ac addasu i heriau'r dyfodol.

Y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd

Crynodeb

Mae ail raglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yn dwyn ynghyd ystod eang o brosiectau, wedi'u trefnu o dan y meysydd cyffredinol canlynol.

Cydgrynhoi a chodeiddio

- cydgrynhoi deddfwriaeth rhandiroedd
- codeiddio deddfwriaeth rheoli bywyd gwyllt a deddfwriaeth coedwigaeth, a sefydlu cod cyfraith tribiwnlysoedd
- dechrau'r gwaith o gydgrynhoi a chodeiddio deddfwriaeth amaethyddol
- parhau i roi blaenoriaeth i gydgrynhoi'r gyfraith ar bynciau penodol, gyda'r bwriad o greu codau pellach posibl o gyfraith Cymru
- ymgorffori is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chyfraith cynllunio yn y Cod perthnasol
- ystyried sut y gall technoleg gyflymu a chefnogi'r broses o gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru

Hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru

- parhau i ystyried y ffordd orau o gyflwyno cyfraith Cymru, a gwybodaeth am gyfraith Cymru, ar-lein ac mewn ffyrdd gwahanol i ddiwallu anghenion defnyddwyr
- ymchwilio i ffyrdd o symleiddio'r broses o lunio deunyddiau esboniadol ar gyfer deddfwriaeth, a chwilio am gyfleoedd i wneud yr wybodaeth werthfawr yn y deunyddiau hynny yn haws ei chyrchu, yn enwedig drwy offer AI
- egluro'n well y prosesau ar gyfer gwneud deddfwriaeth
- parhau i lunio a diweddarau fersiynau diwygiedig o ddeddfwriaeth a gyhoeddir ar blatfform legislation.gov.uk

Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

- sefydlu terminoleg gyfreithiol Gymraeg awdurdodol a geirfaoedd dwyieithog ar gyfer pob cod newydd o gyfraith Cymru
- ymchwilio i sut y gall technoleg ac AI wneud testun Gymraeg y gyfraith yn haws ei ddefnyddio

Datrys amwyseddau a chywiro gwallau

- nodi a chywiro gwallau yn systematig, a datrys amwyseddau, yng nghyfraith Cymru

Cryfhau'r seilwaith deddfwriaethol

- parhau i dacluso'r llyfr statud drwy ddi-ddymu darpariaethau nad ydynt bellach o ddefnydd nac o fudd ymarferol
- ystyried sut y gellir datblygu ein meddalwedd arbenigol ar gyfer drafftio deddfwriaeth ymhellach i wneud deddfwriaeth yn fwy hygyrch ar ôl iddi gael ei deddfu
- ymchwilio i ddatblygu offer sy'n seiliedig ar AI i hwyluso'r broses o ddrafftio deddfwriaeth
- gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Comisiwn y Gyfraith a'r Archifau Gwladol, i gefnogi gwelliannau i hygyrchedd cyfraith Cymru

Cyhoeddir adroddiadau blynyddol yn ystod yr hydref bob blwyddyn ar ôl gosod y rhaglen hon gerbron y Senedd.

Mae gweithgareddau yn y rhaglen hon yn aml yn cyfrannu at fwy nag un elfen o'n gwaith hygyrchedd, gan sicrhau nifer o fanteision. Bwriad Atodiad A yw dangos ymhle y disgwylwn i'r manteision hynny gael eu gwireddu.

Datblygu'r rhaglen

O dan adran 2 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, rhaid i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol lunio a gosod rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

Rhaid i bob rhaglen gynnwys gweithgareddau sydd â'r bwriad o:

- gydgyrnhoi a chodeiddio cyfraith Cymru;
- cynnal cyfraith godeiddiedig;
- hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru;
- hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg; a
- datrys unrhyw amwyseddau, a chywiro unrhyw wallau, yng nghyfraith Cymru.

Gall rhaglen hefyd gynnwys gweithgareddau arfaethedig a gyflawnir mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Gyfraith, neu weithgareddau o unrhyw fath arall y mae Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn eu hystyried yn briodol.

Er mai bwriad rhaglen yw cwmpasu pob tymor yn y Senedd, gall gynnwys gweithgareddau a ddechreuodd o dan raglen gynharach os bydd Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn cytuno y dylai prosiectau o'r fath barhau.

Gweithgareddau sydd â'r nod o gyfrannu at y broses barhaus o gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru

Mae **cydgrynhoi'r** gyfraith yn gyffredinol yn golygu dod â'r holl ddeddfwriaeth ar bwnc penodol ynghyd, ymgorffori'n well ddiwygiadau sydd wedi'u gwneud i ddeddfwriaeth ar ôl iddi gael ei deddfu a moderneiddio'r iaith, yr arddull ddrafftio a'r strwythur. Golyga hyn mai dim ond i raddau bach, os o gwbl, o ran ei sylwedd, y caiff y gyfraith sydd wedi'i chydgrynhoi ei diwygio. Yng Nghymru, bydd cydgrynhoi'r gyfraith yn golygu gan amlaf ailddeddfu cyfreithiau a wnaed gan Senedd y Deyrnas Unedig yn flaenorol, a gwneud hyn yn ddwyieithog.

Wrth lunio'r rhaglen, rydym wedi ystyried y gwaith a ddechreuwyd o dan y rhaglen gyntaf i gydgrynhoi deddfwriaeth¹ nas cwblhawyd eto. Rydym hefyd wedi ceisio nodi prosiectau pellach sy'n bodloni un neu ragor o'r meini prawf canlynol:

- mae'r prosiect yn ymwneud ag un o'r meysydd o'r gyfraith lle mae'r mwyaf o angen cydgrynhoi oherwydd cymhlethdod y gyfraith bresennol;
- byddai'r prosiect yn cael effaith sylweddol ar ddinasyddion oherwydd natur y gyfraith dan sylw;
- mae'r prosiect yn ymarferol, gan ystyried yr hyn y gellir ei gyflawni yng nghydestun blaenoriaethau deddfwriaethol sy'n cystadlu â'i gilydd, argaeledd adnoddau arbenigol a'r setliad datganoli presennol;
- mae'r prosiect yn amserol neu fel arall yn gysylltiedig â gwaith y disgwylir i'r Llywodraeth ei wneud dros dymor y Senedd hon.

Mae dau ddiben i **godeiddio**:

- mabwysiadu strwythur cyson ar gyfer cyfraith Cymru ('codau') a chyhoeddi'r codau hynny a'r ddeddfwriaeth sy'n ffurfio rhan o bob cod; a
- chynnal y strwythur hwnnw dros amser drwy ddiwygio Deddfau presennol yn hytrach na chreu deddfwriaeth 'annibynnol' ychwanegol.

¹ "Dyfodol Cyfraith Cymru: rhaglen ar gyfer 2021-2026" a gyhoeddwyd gyntaf yn 2021 ac a ddiweddarwyd ac a ddiwygiwyd yn 2024 (ar gael yn: [Rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru](#))

Yn ymarferol, bwriad codeiddio yw gwella hygyrchedd a defnyddioldeb cyfraith Cymru i ymarferwyr, cyrff cyhoeddus a'r cyhoedd ehangach drwy alluogi defnyddwyr i ddod o hyd i'r fframwaith cyfreithiol perthnasol a'i ddeall yn haws.

Wrth wella hygyrchedd cyfraith Cymru, mae'n werth nodi bod continwmm o ddulliau deddfwriaethol ar gael. Gall hyn amrywio o gydgrynhoi "pur" (pan fo'r gyfraith yn cael ei dwyn ynghyd heb fawr mwy na newidiadau strwythurol), ac nid yw hynny'n debygol o fod yn opsiwn yn y rhan fwyaf o achosion o ystyried y setliad datganoli a natur hanesyddol y ddeddfwriaeth, i'r newidiadau mwy cyfyngedig y gall Bil cydgrynhoi gan y Senedd eu gwneud o dan y Rheolau Sefydlog. O'r fan honno, gall y broses symud ymlaen at Filiau sy'n cyflawni diwygiadau technegol (mewn rhai achosion drwy brosiectau a gynigir gan Gomisiwn y Gyfraith), cyn cyrraedd y diwygiadau polisi llawn y mae Biliau gan Lywodraeth y DU yn aml yn ymdrin â hwy.

Mae'r prosiectau deddfwriaethol a nodwyd i'w cynnwys yn y rhaglen hon wedi'u lleoli ar hyd y continwmm hwn.

Cydgrynhoi deddfwriaeth rhandiroedd

Mae'r gyfundrefn bresennol ar gyfer rhandiroedd wedi'i gwasgaru ar draws nifer o brif ddeddfiadau, gan gynnwys:

- Deddf Tyddynnau a Rhandiroedd 1908;
- Deddf Rhandiroedd 1922;
- Deddf Rhandiroedd 1925; a
- Deddf Rhandiroedd 1950.

Mae'r ddeddfwriaeth yn rhagflaenu sefydlu'r Senedd a Llywodraeth Cymru; cafodd ei drafftio ar gyfer system wahanol o lywodraeth leol; mae'n cynnwys diwygiadau wedi'u gwasgaru ar draws nifer o Ddeddfau; ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr symud rhwng gwahanol ddeddfiadau er mwyn deall un pwnc.

Bydd y gwaith cydgrynhoi hwn yn arwain at un Ddeddf fodern, ddwyieithog sy'n ymdrin â rhandiroedd yng Nghymru ac sy'n cyd-fynd yn fwy priodol â system lywodraethu heddiw.

Codeiddio deddfwriaeth rheoli bywyd gwyllt

Mae deddfwriaeth rheoli bywyd gwyllt wedi esblygu o gorff o gyfraith a oedd yn ymwneud â pherchnogaeth, hela a difa plâu i gorff o gyfraith sydd bellach yn cynnwys cadwraeth bioamrywiaeth, gwarchod rhywogaethau a stiwardiaeth amgylcheddol. Ar bob cam o'r broses honno, ychwanegwyd deddfwriaeth newydd at

ddeddfwriaeth bresennol yn hytrach na'i disodli, gan arwain at haenau cymhleth o ddarpariaethau ac anghysondebau.

Mae'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym yn y maes hwn yn dyddio'n ôl i 1828, ond Rhan 1 o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 sydd fwyaf perthnasol heddiw. Nod y prosiect hwn fyddai dwyn ynghyd y brif ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â rheoli, cadw a gwarchod adar gwylt ac anifeiliaid eraill, rhywogaethau goresgynnol, a gwarchod planhigion gwylt. Byddai hefyd yn ymgorffori cyfundrefnau ar gyfer rhywogaethau penodol sydd mewn deddfwriaeth annibynnol ar hyn o bryd. Drwy Ddeddf newydd, byddem yn sefydlu cod newydd o gyfraith rheoli bywyd gwylt i Gymru.

Yn 2015, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith gynigion ar gyfer diwygio a moderneiddio cyfraith bywyd gwylt, a gafodd gefnogaeth eang. Cynigiodd adroddiad Comisiwn y Gyfraith ddiwygiadau technegol a pholisi oherwydd yr anghysondebau sydd wedi datblygu dros gyfnod sylweddol o amser o fewn y cyfundrefnau ar gyfer rheoli bywyd gwylt. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i weithredu yn y maes hwn o'r gyfraith, ond mae hefyd yn awgrymu bod angen ystyried yn ofalus ai cydgrynhoi ynteu ailddatgan yn dechnegol yw'r dull drafftio mwyaf priodol i'w fabwysiadu.

Yn ogystal, cyhoeddodd y Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd ar 10 Medi y bydd yn cyflwyno Bil byr wedi'i dargedu cyn codeiddio deddfwriaeth rheoli bywyd gwylt. Bydd y Bil yn ymdrin ag aflonyddu ar forloi ac yn sefydlu tymor caeedig ar gyfer lladd, anafu neu gymryd ysgyfarnogod. Pe bai'r ddeddfwriaeth honno'n cael ei deddfu, byddai'n diwygio'r gyfraith bresennol ar reoli bywyd gwylt ac yna'n cael ei hymgorffori yn y Cod newydd o gyfraith Cymru ar reoli bywyd gwylt.

Codeiddio deddfwriaeth coedwigaeth

Mae gan ddeddfwriaeth coedwigaeth gefndir hanesyddol diddorol hefyd, ac mae'r rhesymeg dros warchod coetiroedd hynafol a phlannu coed newydd wedi newid yn sylweddol dros amser.

Daeth cyfraith coedwigaeth i'r amlwg oherwydd pryderon ynghylch cyflenwad pren cenedlaethol, diogelwch strategol a rheoli tir. Nid gwarchod yr amgylchedd oedd y prif reswm dros y gyfundrefn goedwigaeth fodern; yn hytrach profiad y DU yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a amlygodd yr angen i sicrhau cyflenwad strategol o bren. O ganlyniad, roedd deddfwriaeth yn ymwneud â choedwigaeth a ddeddfwyd o 1919 ymlaen yn canolbwyntio'n bennaf ar gynhyrchu pren. Dros amser, fodd bynnag, mae ystyriaethau amgylcheddol wedi dod yn gynyddol bwysig, ac mae'r fframwaith presennol yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau cydbwysedd rhwng hybu coedwigo,

rheoli a chynhyrchu pren ar y naill law, a diogelu harddwch naturiol, fflora a ffawna, a buddiannau amgylcheddol eraill ar y llaw arall.

Nod y prosiect hwn yw ailddatgan y brif ddeddfwriaeth (Deddf Coedwigaeth 1967) er mwyn creu Deddf fodern, ddwyieithog i Gymru, ac yn y modd hwnnw sefydlu cod o gyfraith coedwigaeth i Gymru.

Dechrau'r broses o gydgrynhoi a chodeiddio deddfwriaeth amaethyddol

Ym mis Chwefror 2026, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith² ei adroddiad: *Cyfraith amaethyddol yng Nghymru: adroddiad cwmpasu*, yn dilyn gwaith a wnaed ar gais y Llywodraeth flaenorol.

Cadarnhaodd Comisiwn y Gyfraith bryderon presennol bod cyfraith amaethyddol wedi'i gwasgaru ar hyn o bryd ar draws nifer mawr o statudau nad ydynt yn hawdd eu canfod na'u deall. Dim ond yn Saesneg y mae'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth ar gael, ac o gofio bod deddfwriaeth yn y maes hwn yn dyddio mor bell yn ôl â'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid yw'n syndod ei bod wedi dyddio mewn rhai manau.

Daeth Comisiwn y Gyfraith i'r casgliad y gellid sefydlu Cod newydd o gyfraith amaethyddol a chynigiodd strwythur dros dro a fyddai'n cynnwys pedair Deddf newydd.

Mae'r Llywodraeth hon yn cydnabod bod y rhaglen waith gyffredinol i godeiddio cyfraith amaethyddol Cymru yn sylweddol ac yn debygol o gymryd nifer o flynyddoedd. Hefyd, nid yw'n ymarferol cydgrynhoi llawer o'r gyfraith hon oherwydd y tebygolrwydd y bydd yn newid yn ystod y blynyddoedd nesaf. Serch hynny, mae'n bwysig dechrau ar y gwaith hwn. Felly, bwriad y rhaglen hon yw dechrau ar y gwaith o gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith amaethyddol Cymru. Ein bwriad yw dechrau gyda'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â rheoleiddio'r sector amaethyddol a darparu cymorth iddo.

Sefydlu cod tribiwnlysoedd i Gymru

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd yn cyflwyno Bil Tribiwnlysoedd Cymru yn gynnar yn ystod tymor y Senedd hon er mwyn sefydlu system dribiwnlysoedd newydd i Gymru sy'n fodern, yn gyson yn fewnol ac yn annibynnol. Gan y bydd hwn yn ddatganiad cynhwysfawr o'r gyfraith sy'n ymwneud â system dribiwnlysoedd Cymru, ein bwriad yw y bydd hefyd yn sefydlu cod tribiwnlysoedd i Gymru.

² Ar gael yn: [Cyfraith amaethyddol yng Nghymru – Comisiwn y Gyfraith](#)

Byddai is-ddeddfwriaeth a wneir wedyn mewn perthynas â system dribiwnlysoedd Cymru hefyd yn rhan o'r Cod hwn. Bydd hyn yn sicrhau y gall defnyddwyr ddod o hyd i'r holl gyfraith berthnasol mewn un man.

Nodi codau cyfraith Cymru yn y dyfodol

Wrth i raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth ddatblygu ymhellach, bydd cyfleoedd i greu codau ychwanegol o gyfraith Cymru yn cael eu hystyried.

Cynnal codau cyfraith Cymru

Parhau i ddatblygu'r cod cynllunio i Gymru

Mae'r Senedd wedi deddfu Deddf Cynllunio (Cymru) 2026 ac, wrth wneud hynny, wedi sefydlu y bydd cod cynllunio i Gymru. O dan y rhaglen flaenorol i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, dechreuwyd gwaith ar lunio'r is-ddeddfwriaeth a fydd yn rhan o'r Cod hwnnw.

Ar 7 Awst 2026, cyhoeddodd y Llywodraeth ei rhaglen weithredu ar gyfer Deddf 2026. Rhennir y gwaith yn ddau gam:

- rhagwelir y bydd y cam cyntaf yn cael ei gyflawni rhwng nawr a mis Hydref 2027, gan ddechrau rhaglen o ailddatgan yr is-ddeddfwriaeth bresennol sy'n sail i'r system gynllunio. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar y nifer bach o offerynnau a ddefnyddir amlaf gan ymarferwyr ac sydd angen diweddariadau sylweddol o ganlyniad i Ddeddf 2026;
- bydd yr ail gam yn parhau â'r rhaglen o ailddatgan yr is-ddeddfwriaeth sy'n weddill ar ffurf fodern a diwygiedig, a bydd yn cynnwys diwygio a diweddaru'r ystod ehangach o ganllawiau cynllunio a dogfennau polisi dros y tymor canolig i'r tymor hwy.

Cefnogi codeiddio

Er mwyn cefnogi codeiddio, bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â dwy ffrwd waith ar wahân yn ystod y rhaglen hon:

- yn gyntaf, byddwn yn ymchwilio i sut y gall AI gefnogi'r gwaith o gydgrynhoi ac ailddatgan y gyfraith, yn enwedig yng nghyd-destun drafftio dwyieithog pan fo cymaint o'r gyfraith bresennol ar gael yn Saesneg yn unig. Byddwn yn defnyddio'r hyn a ddysgir o'r prosiectau digidol ac AI a ddisgrifir mewn rhannau eraill o'r rhaglen hon i ddatblygu'r gallu a'r capasiti ar gyfer codeiddio dwyieithog.

- yn ail, unwaith y bydd Cod o gyfraith Cymru wedi'i sefydlu mewn maes penodol o'r gyfraith, mae'n hollbwysig cynnal y strwythur hwnnw dros amser drwy sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r gyfraith yn y dyfodol yn cael eu gwneud drwy ddiwygio'r Deddfau perthnasol o fewn y Cod, yn hytrach na thrwy greu deddfwriaeth 'annibynnol' ychwanegol. Gobeithiwn gyflawni hyn drwy newidiadau i Reolau Sefydlog y Senedd (egwyddor sydd wedi'i chefnogi gan Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Chweched Senedd).

Yn ogystal, bydd y Llywodraeth yn ceisio gweithio gyda'r Archifau Gwladol i gefnogi eu gwaith o gategoreiddio deddfwriaeth (gan gynnwys cyfraith Cymru) ar blatfform legislation.gov.uk ac i ddefnyddio hynny i ddatblygu swyddogaethau pellach ar y platfform hwnnw.

Hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru

Wrth i gyfraith Cymru barhau i ddatblygu fel corff neilltuol o gyfraith, mae'n hanfodol hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohoni er mwyn sicrhau bod dinasyddion, busnesau a chyrrff cyhoeddus yn ymwybodol o'u hawliau a'u rhwymedigaethau.

Creu profiad ar-lein gwell ar gyfer cyfraith Cymru

Mae cyhoeddi deddfwriaeth yn effeithiol yn hanfodol er mwyn helpu pobl i ddod o hyd i'r gyfraith sy'n effeithio arnynt a'i deall. Mae'r rhaglen hon yn gyfle i roi rhagor o ystyriaeth i'r ffordd y mae pobl yn cael mynediad at gyfraith Cymru ac i'r ffordd y gallwn eu helpu i ddeall a defnyddio gwybodaeth am y gyfraith honno yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- Gwefan y Llywodraeth – llyw.cymru – fydd y prif ddull o gyhoeddi gwybodaeth a chanllawiau am gyfraith Cymru. Felly, byddwn yn ceisio gwella'r cynnwys am gyfraith Cymru ar y wefan honno. Bydd hyn yn cynnwys:
 - sicrhau bod gwybodaeth ar gael am bob Deddf Cymru a gaiff ei phasio gan y Senedd, ac am y ddeddfwriaeth a wneir oddi tani.
 - cyhoeddi ar y wefan bob darn o is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru nad yw Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru yn ei gyhoeddi ar wahân, tra bo'r ddeddfwriaeth honno mewn grym. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, gyfarwyddydau i fyrddau iechyd, gorchmynion traffig ffyrdd a Chodau Ymarfer Derbyn i Ysgolion. Pan na fydd y ddeddfwriaeth mewn grym mwyach, bydd yn parhau i fod ar gael drwy gynllun Llyfrgell y Llywodraeth. Bydd hyn yn sicrhau y bydd defnyddwyr

bob amser yn gallu cael gafael ar yr holl ddeddfwriaeth sy'n effeithio arnynt.

- o datblygu swyddogaethau a fydd yn galluogi gwefan llyw.cymru i ddod yn brif gyfrwng ar gyfer cyhoeddi Codau cyfraith Cymru³.
- Byddwn yn ymchwilio i ffyrdd o wella ymwybyddiaeth o is-ddeddfwriaeth arall pan fo honno wedi'i gwneud gan awdurdodau Cymreig datganoledig, gyda'r bwriad o'i gwneud yn haws i unigolion ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt.
- Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r tîm yn yr Archifau Gwladol sy'n cefnogi platform legislation.gov.uk i barhau i ddatblygu a gwella swyddogaethau'r wefan honno mewn perthynas â chyfraith Cymru. Bydd hyn yn cynnwys y ffordd y cyflwynir cyfraith Cymru yn ogystal â chefnogi'r ffyrdd o ddefnyddio'r data sy'n ymwneud â chyfraith Cymru.

Cefnogi anghenion gwahanol

Gan adeiladu ar y newidiadau a wnaed i ffurfdeip a chynllun offerynnau statudol Cymru, ac ar y gwaith a wnaed i sicrhau bod gwybodaeth am Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) 2026 ar gael yn Iaith Arwyddion Prydain, byddwn yn parhau i ystyried hygyrchedd deddfwriaeth o ran ei fformat yn ogystal â'i chynnwys. Yn ystod cyfnod y rhaglen hon, byddwn yn gweithio gyda defnyddwyr deddfwriaeth a phartneriaid eraill i nodi cyfleoedd i ddarparu gwybodaeth gyfreithiol mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion amrywiol yn well, gan gynnwys drwy fformatau amgen, digidol, gweledol neu wedi'u harwyddo lle byddai hynny'n gwella dealltwriaeth a defnydd ymarferol.

Deunyddiau esboniadol

Mae Deddfau gan y Senedd, o reidrwydd, yn fanwl gywir ac yn aml yn dechnegol eu natur. Mae Nodiadau Esboniadol yn darparu esboniad annhechnegol o'r hyn y mae darpariaethau yn ei wneud a'r ffordd y maent yn cyd-fynd â'i gilydd. Gall hyn helpu darllenwyr i ddeall effaith deddfwriaeth heb orfod dehongli drafftio cymhleth ar eu pennau eu hunain. Yn yr ystyr hwnnw, nid dogfennau ategol yn unig yw'r Nodiadau; maent yn un o'r prif ddulliau o bontio'r bwlch rhwng drafftio sy'n fanwl gywir yn gyfreithiol a dealltwriaeth wirioneddol y cyhoedd o'r gyfraith.

³ Bydd y gwaith hwn yn sicrhau y cynhelir y gofynion o dan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Ddeddfau ac offerynnau statudol Cymru sy'n ffurfio rhan o'r Codau hynny gael eu cyhoeddi gan Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau iddynt hefyd: ni fwriedir iddynt fod yn gynhwysfawr, gallant ddyddio os caiff y ddeddfwriaeth ei diwygio, ac mae'n rhaid i ddarllenwyr barhau i gyfeirio at destun y ddeddfwriaeth ei hun fel ffynhonnell awdurdodol y gyfraith.

Byddwn yn gweithio gydag Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru⁴ ac eraill i nodi ffyrdd o ddatblygu ymhellach y trefniadau ar gyfer llunio, cyhoeddi a hyrwyddo Nodiadau Esboniadol. Gallai hyn gynnwys:

- integreiddio'r broses o lunio Nodiadau â'r feddalwedd drafftio deddfwriaeth a ddefnyddir gan y Llywodraeth, a fydd yn gwella cywirdeb o ran fformat a chysondeb o ran arddull (sydd o gymorth wrth lunio'r Nodiadau ac wrth hwyluso'r defnydd o'r deunyddiau gan eraill yn y dyfodol). Byddai defnyddio'r feddalwedd drafftio deddfwriaeth hefyd yn cyflymu'r broses o gyhoeddi'r Nodiadau ar wefan legislation.gov.uk ar ôl i Fil gael y Cydsyniad Brenhinol.
- ymchwilio i'r defnydd o dechnolegau newydd i gyflwyno cynnwys Nodiadau Esboniadol mewn ffyrdd gwahanol, o bosibl drwy ddarparu atebion yn uniongyrchol i gwestiynau penodol yn ogystal â darparu esboniad naratif yn y dull traddodiadol (hynny yw, fesul darpariaeth).
- ymchwilio i'r posibilrwydd o ddiweddarau Nodiadau, neu sicrhau bod fersiynau ychwanegol o Nodiadau ar gael, os caiff Deddfau allweddol (er enghraifft, y rhai sy'n ffurfio rhannau o Godau) eu diwygio wedyn.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Archifau Gwladol i gefnogi eu huchelgais i ddatgloi potensial dogfennau cysylltiedig eraill a lunnir gan y Llywodraeth ac a gyhoeddir gan Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru mewn cysylltiad â Deddfau ac offerynnau statudol Cymru. Ar hyn o bryd, dim ond nifer ac ystod gyfyngedig o ddeunyddiau sydd ar gael, ond byddwn yn ceisio ehangu'r ddarpariaeth hon a chefnogi cyhoeddi mewn fformat .xml er mwyn galluogi ailddefnyddio data a gwybodaeth.

Byddwn yn ystyried sut y gallwn wneud defnydd o'r Drwydded Llywodraeth Agored ar gyfer deunyddiau esboniadol er mwyn galluogi eraill i ddefnyddio'r data hyn, eu rhannu ac adeiladu arnynt yn hawdd ac yn ddi-dâl.

Deall y prosesau o wneud deddfwriaeth

Gan adeiladu ar y gwaith a wnaed o dan y rhaglen gyntaf i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, bydd y Llywodraeth hon yn parhau i ddatblygu a chyhoeddi canllawiau ar

⁴ Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru sy'n gyfrifol am gyhoeddi Nodiadau Esboniadol a dogfennau cysylltiedig a anfonir ato gan Weinidogion Cymru neu Glerc Senedd Cymru

lunio deddfwriaeth. Bydd hyn yn helpu i wella dealltwriaeth o'r broses o wneud deddfwriaeth ac o'r gwaith o ddatblygu a drafftio deddfwriaeth ddwyieithog.

Yn ystod tymor y Senedd hon, mae'r Llywodraeth yn bwriadu adolygu a diweddarau'r canlynol, yn ôl yr angen:

- y Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Senedd;
- *Datrysiadau Deddfwriaethol Cyffredin* (canllawiau sy'n helpu swyddogion cyhoeddus i ddeall materion sy'n codi'n fynych ac i ddysgu o'r hyn a wnaed yn y gorffennol i'w datrys); a
- *Drafftio Deddfau i Gymru* (canllawiau drafftio deddfwriaeth Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol), sy'n cynnwys canllawiau ar ymadroddion cyfreithiol Cymraeg a ffefrir a chonfensiynau drafftio.

Byddwn hefyd yn llunio ac yn cyhoeddi canllawiau ychwanegol ar y prosesau a'r gweithdrefnau sydd ynghlwm wrth lunio is-ddeddfwriaeth.

Yn 2017, cyhoeddodd yr Archifau Gwladol y Pumed Argraffiad o *Statutory Instrument Practice*. Mae'r canllaw hwn wedi'i anelu at y rhai sy'n cyfrannu at lunio a gwneud offerynnau statudol (hynny yw, yn ymarferol, yr offerynnau hynny sy'n rhan o gyfres Offerynnau Statudol y DU ac sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Offerynnau Statudol 1946). Ni luniwyd *Statutory Instrument Practice* gyda'r bwriad o ddarparu canllawiau ar offerynnau statudol Cymru⁵ – er ei fod yn ffynhonnell gyfeirio ddefnyddiol i'r rhai sy'n drafftio offerynnau o'r fath ac yn craffu arnynt. Yn ystod y rhaglen hon, bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda'r Archifau Gwladol i ystyried a ddylid datblygu canllaw tebyg ar gyfer offerynnau statudol Cymru.

Fersiynau diwygiedig ar legislation.gov.uk

Bydd y Llywodraeth yn parhau â'i phrosiect hirdymor i gefnogi gwaith y tîm sy'n gyfrifol am legislation.gov.uk er mwyn dangos fersiynau diwygiedig o ddeddfwriaeth Cymru (yn y ddwy iaith) ar y platfform hwnnw. Mae fersiwn ddiwygiedig o ddeddfwriaeth yn ymgorffori diwygiadau a wnaed gan ddeddfwriaeth ddiweddarach yn y testun a ddangosir ar y wefan.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Archifau Gwladol i nodi'r offerynnau statudol Cymru hynny a gyrchir ac a ddefnyddir yn rheolaidd iawn, ac sydd wedi'u diwygio'n helaeth, er mwyn ystyried a oes manteision i'w hailddatgan.

⁵ Er bod y rhain yn ddarostyngedig i Ddeddf 1946 cyn 1 Ionawr 2026

Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod y Gymraeg yn dal i ffynnu fel iaith gyfraith fodern mewn byd digidol sy'n gwneud defnydd cynyddol o AI. Yn y modd hwn, byddwn yn gallu cefnogi uchelgeisiau ehangach *Cymraeg 2050*, a chyfrannu at y rhain, drwy greu rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau cyfreithiol, a hybu'r Gymraeg fel iaith fodern llywodraeth, cyfraith a gweinyddiaeth gyhoeddus.

Mae pob Bil a lunnir gan y Llywodraeth yn cynnwys proses ffurfiol ar gyfer cytuno ar derminoleg ddwyieithog. Fodd bynnag, mae codeiddio yn cynnig budd ieithyddol penodol am fod pob cydgrynhoad neu ailddatganiad mawr:

- yn creu cyfle i foderneiddio iaith ddeddfwriaethol Gymraeg;
- yn dileu anghysondebau sydd wedi codi'n anfwriadol drwy ddegawdau o ddiwygio;
- yn cynhyrchu terminoleg Gymraeg gydlynol ar draws maes pwnc cyfan; ac
- yn gwneud cyfraith Cymru yn haws ei haddysgu a'i gweinyddu yn Gymraeg.

Yn achos Codau cyfraith Cymru, bydd y broses o gytuno ar derminoleg yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Ddeddf neu'r Deddfau a'r is-ddeddfwriaeth a fydd yn ffurfio rhan o God, a bydd hefyd yn cynnwys cyhoeddi geirfa gyfreithiol ddwyieithog ar gyfer y Cod hwnnw. Bydd y gwaith hwn hefyd yn cyfrannu at ehangu *TermCymru* fel cronfa ddata derminoleg awdurdodol sy'n cynnwys terminoleg gyfreithiol a thechnegol a ddefnyddir yn neddfwriaeth Cymru, ac at ddatblygu *BydTermCymru* fel storfa ar gyfer geirfaedd deddfwriaethol.

Mae'r eirfa a luniwyd ochr yn ochr â datblygu'r Cod Cynllunio i Gymru yn enghraifft o sut y gall cynhyrchu terminoleg awdurdodol mewn ffordd hygyrch gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ar draws maes cyfan o'r gyfraith.

Mae iaith gyfraith fodern yn dibynnu fwyfwy ar offer digidol. Yn ystod cyfnod y rhaglen hon, byddwn yn ymchwilio i sut y gall technoleg ac AI wneud testun Cymraeg ein deddfwriaeth yn haws ei gyrchu, ei ddatblygu a'i ddeall. Byddwn yn:

- cefnogi ac yn parhau i ddatblygu, mewn partneriaeth â'r Archifau Gwladol, ryngwyneb Cymraeg ar gyfer ein meddalwedd drafftio deddfwriaeth.
- ceisio gweithio gyda datblygwyr a'r Archifau Gwladol i:

- o wella'r cymorth Cymraeg mewn offer cyfreithiol;
- o ystyried sut y gallai deddfwriaeth Cymru helpu i ddatblygu offer AI Cymraeg yn y dyfodol.

Credwn y bydd cynyddu gallu offer AI i ddarllen a defnyddio deddfwriaeth Gymraeg yn datblygu'r ecosystem hanfodol o addysg, deunyddiau ategol a disgwrs gyfreithiol sy'n cefnogi ymarferwyr i weithio yn Gymraeg yn y pen draw. Gall hyn yn ei dro gefnogi'r broses o ddatblygu deddfwriaeth o'r cychwyn cyntaf, gan helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith y caiff deddfwriaeth ei llunio a'i drafftio drwyddi.

Mae sefydlu system driwiwnlysoedd fodern i Gymru drwy'r Bil Tribiwnlysoedd sydd ar y gweill hefyd yn gyfle pwysig i gefnogi'r defnydd ymarferol o'r Gymraeg wrth weinyddu cyfiawnder. Mae'r Gymraeg eisoes yn elwa ar amddiffyniad statudol yn y llysoedd a'r triwiwnlysoedd. Yn ogystal, mae Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws Tribiwnlysoedd Cymru, lle y gall pob triwiwnlys ddarparu gwasanaethau gweinyddol a chynnal gwrandawiadau yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau triwiwnlys yn parhau'n gyfyngedig. Mae creu system driwiwnlysoedd gliriach a mwy cydlynol i Gymru yn ein galluogi i ystyried, ynghyd â barnwyr y triwiwnlysoedd a phartneriaid eraill, sut y gellir cefnogi'r hawliau hynny yn ymarferol. Bydd y Tribiwnlys Apêl arfaethedig i Gymru yn chwarae rhan ganolog wrth ddatblygu cyfreitheg Cymru. Yn ogystal â chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ymarferol, dros amser bydd yn helpu i ddatblygu rhesymu cyfreithiol yn Gymraeg mewn meysydd o gyfraith ddatganoledig, ac i gryfhau'r corff o derminoleg gyfreithiol Gymraeg a ddefnyddir gan ymarferwyr, defnyddwyr triwiwnlysoedd a'r cyhoedd ehangach.

Datrys unrhyw amwyseddau, a chywiro unrhyw wallau, yng nghyfraith Cymru

Er bod y Llywodraeth yn amlwg wedi ymrwymo i osgoi gwallau, anghysondebau neu amwyseddau mewn deddfwriaeth, pan ddônt i'r amlwg byddwn yn ystyried yn ddi-oed a oes angen gweithredu. Lle bo angen, byddwn yn cyflwyno'r cywiriad neu'r datrysiad priodol. Mae'r dull hwn yn cefnogi'r gwaith parhaus o gynnal a gwella cyfraith Cymru, gan gydnabod cymhlethdod y cymysgedd presennol o ffynonellau deddfwriaethol.

Bydd y Llywodraeth yn:

- cadw cofnod o'r angen am gywiriadau mewn perthynas â gwallau neu amwyseddau sydd wedi'u nodi gan y llysoedd, Pwyllgor Deddfwriaeth y Senedd, rheoleiddwyr ac ymarferwyr, yn ogystal â chan y Llywodraeth ei hun.
- monitro gwallau neu amwyseddau gyda'r nod o sicrhau na fydd gwallau neu amwyseddau tebyg yn cael eu hailadrodd yn y dyfodol;
- blaenoriaethu'r gwaith o ymdrin â'r gwallau neu'r amwyseddau hynny gan roi ystyriaeth i ffactorau perthnasol, gan gynnwys risg gyfreithiol, yr effaith ar ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth, pa mor aml y disgwylir i'r ddeddfwriaeth gael ei defnyddio, a'r ffordd orau o gyflawni'r cywiriad.
- defnyddio Biliau cydgrynhoi fel cyfleoedd i ddatrys amwyseddau, ond dim ond i'r graddau a ganiateir gan Reolau Sefydlog y Senedd.
- tynnu sylw'r Pwyllgor Deddfwriaeth at gywiriadau a wneir i is-ddeddfwriaeth, drwy'r Memorandwm Esboniadol a osodir gerbron y Senedd gyda phob offeryn statudol Cymru.

Drwy ein gwaith o anodi cyfraith Cymru ar legislation.gov.uk, gall y Llywodraeth hefyd sicrhau bod y cywiriadau'n cael eu harddangos ar y platfform hwnnw mewn modd amserol.

Gweithgareddau eraill

Diddymu darpariaethau

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymgynghori ar Fil a fyddai'n diddymu neu'n datgymhwyso darpariaethau deddfwriaethol o fewn y llyfr statud nad ydynt bellach o ddefnydd nac o fudd ymarferol mewn perthynas â Chymru. Mae dileu darpariaethau diangen yn helpu i "dacluso'r" llyfr statud.

Arferion drafftio deddfwriaeth yn y dyfodol

O fis Hydref 2026 ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd yn bartneriaid yn Lawmaker – system ddrafftio a rheoli deddfwriaeth a ddatblygwyd gan yr Archifau Gwladol ar y cyd â deddfwrfeydd a swyddfeydd drafftio deddfwriaeth llywodraethau ledled y DU. Drwy'r bartneriaeth hon, byddwn yn cefnogi datblygiad pellach y system. Gallai hyn gynnwys:

- cefnogi defnyddwyr i lunio Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith i Gymru o fewn system Lawmaker;

- galluogi NOSCau (is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan, ond nad yw ar ffurf offeryn statudol Cymru) i gael eu llunio o fewn Lawmaker;
- integreiddio meddalwedd cyfieithu arbenigol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth ddwyieithog.

Bydd y Llywodraeth hefyd yn parhau i ystyried y posibilrwydd o ddatblygu offer dibynadwy, dwyieithog sy'n defnyddio AI ac sy'n ymgorffori arferion drafftio a gofynion cyfansoddiadol Cymru.

Penderfyniadau tribiwnlysoedd

Fel rhan o'r gwaith ehangach sy'n gysylltiedig â'r Bil Tribiwnlysoedd, byddwn yn ystyried cyfleoedd i gryfhau'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi penderfyniadau tribiwnlysoedd.

Comisiwn y Gyfraith

Byddwn yn parhau i weithio gyda Chomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr i nodi prosiectau sy'n ymwneud â chyfraith Cymru er mwyn eu cynnwys yn ei raglenni parhaus ar gyfer diwygio'r gyfraith. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Chomisiwn y Gyfraith ar brosiectau eraill y mae'n eu cynnal lle gallai fod goblygiadau i weithrediad a datblygiad cyfraith Cymru.

Adrodd

O dan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, mae'n ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Senedd ar gynnydd y rhaglen. Disgwylir i'r adroddiad cyntaf gael ei gyhoeddi yn 2027.

Bydd yr adroddiad sydd i'w gyhoeddi yn 2028 yn cynnwys canfyddiadau'r Cwnsler Cyffredinol yn sgil ei adolygiad o weithrediad Rhannau 2A a 2B o Ddeddf 2019, fel sy'n ofynnol o dan adran 42A o'r Ddeddf honno.

Atodiad A – y manteision disgwylidig o ran hygyrchedd y gyfraith yn sgil gweithgareddau'r rhaglen hon

	Cyfrannu at gydgrynhoi a chodeiddio	Cynnal ffurf cyfraith godeiddiedig Cymru	Hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth	Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg	Datrys amwyseddau a chywiro gwallau	Manteision pellach*
Cydgrynhoi deddfwriaeth rhandiroedd	●		●	●	●	
Codeiddio deddfwriaeth rheoli bywyd gwyllt	●		●	●	●	
Codeiddio deddfwriaeth coedwigaeth	●		●	●	●	
Dechrau'r gwaith o gydgrynhoi a chodeiddio deddfwriaeth amaethyddol	●		●	●	●	
Sefydlu cod tribiwnlysoedd i Gymru	●		●	●		
Parhau i ddatblygu'r cod cynllunio i Gymru	●	●	●	●		
Ymchwilio i sut y gall AI gefnogi'r gwaith o gydgrynhoi ac ailddatgan	●	●		●	●	●
Datblygu ffyrdd o gefnogi disgyblaeth codau		●				
Gwella'r cynnwys am gyfraith Cymru ar llyw.cymru	●		●	●		●

	Cyfrannu at gydgrynhai a chodeiddio	Cynnal ffurf cyfraith godeiddiedig Cymru	Hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth	Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg	Datrys amwyseddau a chywiro gwallau	Manteision pellach*
Gwella ymwybyddiaeth o is-ddeddfwriaeth a gyhoeddir gan gyrff heblaw Llywodraeth Cymru neu Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru			●			
Cefnogi'r Archifau Gwladol i ddatblygu legislation.gov.uk			●	●		●
Cefnogi anghenion gwahanol			●	●		●
Gwella'r trefniadau ar gyfer llunio, cyhoeddi a hyrwyddo Nodiadau Esboniadol			●	●		●
Datgloi'r potensial ar gyfer ailddefnyddio deunydd esboniadol			●			●
Datblygu ac ehangu canllawiau ar y broses o wneud deddfwriaeth	●		●	●	●	●
Cyfrannu at gyflwyno fersiynau diwygiedig o gyfraith Cymru ar blatfform legislation.gov.uk		●	●	●		
Sefydlu terminoleg gyfreithiol Gymraeg awdurdodol a chyhoeddi geirfaoedd dwyieithog ar gyfer pob cod newydd o gyfraith Cymru	●		●	●		●

	Cyfrannu at gydgrynhai a chodeiddio	Cynnal ffurf cyfraith godeiddiedig Cymru	Hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth	Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg	Datrys amwyseddau a chywiro gwallau	Manteision pellach*
Ymchwilio i sut y gall technoleg ac AI wneud cyfraith Gymraeg yn haws ei chyrchu, ei datblygu a'i deall			●	●	●	●
Cefnogi'r defnydd ymarferol o'r Gymraeg yn nhribwnlysoedd Cymru				●		●
Nodi a chywiro gwallau, a datrys amwyseddau, yng nghyfraith Cymru					●	
Diddymu darpariaethau nad ydynt bellach o ddefnydd nac o fudd ymarferol					●	●
Cefnogi datblygiadau yn y dyfodol mewn meddalwedd arbenigol ar gyfer drafftio deddfwriaeth				●		●
Ystyried datblygu systemau ac offer dibynadwy, dwyieithog sy'n defnyddio AI ar gyfer drafftio deddfwriaeth	●			●		●
Cefnogi'r gwaith o gryfhau'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi penderfyniadau tribwlysoedd			●	●		●

* Mae "manteision pellach" yn cynnwys cefnogi'r gwaith o lunio deddfwriaeth ddwyieithog a datblygu arferion drafftio, tacluso'r llyfr statud, cyfrannu at "ecosystem gyfreithiol" Cymru, galluogi eraill i ddefnyddio gwybodaeth i ddatblygu mentrau newydd neu i gyfrannu at ddealltwriaeth ehangach o'r gyfraith neu'r systemau y mae deddfwriaeth yn chwarae rhan ynddynt
